



Mae ynni mewn tonnau'n dod yn wreiddiol o'r gwynt. Technoleg weddol newydd yw ynni'r tonnau o hyd ac mae llawer o gynlluniau wedi cael eu datblygu i ddal ynni'r tonnau. Mae ardaloedd posibl da ar gyfer ynni'r tonnau o gwmpas y DU.

Newid yn yr hinsawdd CO ₂ e y kW awr	10 gram (ar gyfer trydan)	Allryiadau'n codi wrth wneud a gosod yr offer yn unig.
Effaith ar fyd natur	Ychydig iawn	Yn agos i'r lan gallai gosodiadau tonnau effeithio ar y cynefin arfordirol. Byddai'r rhan fwyaf o ynni'r tonnau ar y môr.
Risgiau	Isel iawn	Risgiau wrth osod a chynnal a chadw dyfeisiadau ar y môr. Risg fach i longau'n taro yn eu herbyn.
Effaith weledol	Ychydig iawn	Gallai gosodiadau sy'n agos i'r lan fod yn fawr ac yn oramlwg. Byddai'r rhan fwy ar y môr.
Cost ar hyn o bryd	Cymedrol/Hynod uchel	Disgwylir i ynni'r tonnau fod yn ddrud ar y dechrau. Rhaid iddo fod yn gadarn iawn i wrthsefyll stormydd eithriadol.
Cost ymhen 20 mlynedd	Cymedrol	Bydd costau'n syrthio wrth i fwy gael eu gosod ac i dechnoleg wella.
Adnoddau'r DU	Da	Gallent ddarparu tua 7% o drydan y DU ac ni fydd yn darfod.
Dibynadwyedd/hyblygrwydd	Cymedrol	Mae ynni'r tonnau'n dibynnu ar amodau'r gwynt ond mae'r amrywiad o awr i awr yn llai. Ddim yn hyblyg.